‘NID . . . YN PERTHYN I’R BYD’—GAN EFELYCHU CRIST

Nodyn i’r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i ystyried esiampl Crist ac felly gael dealltwriaeth cliriach o beth y mae yn ei olygu iddyn’ nhw i fod ‘nid . . . yn perthyn i’r byd.’ Mewn ffyrdd ymarferol helpwch nhw i sylweddoli ei bod hi’n bosib’ efelychu Crist yn hyn o beth heddiw

MAE DUW YN CARU’R BYD, OND ‘NID YDYM . . . YN PERTHYN I’R BYD’—PAM? (10 mun.)

Mae Cristnogion yn gyfarwydd â’r syniadau fod Duw yn caru’r byd (In 3:16) ac nad ydym ni i fod yn rhan o’r byd (In 15:19; 17:14, 16); onid gwrth-ddweud ydi hynny?

Fe wyddom ni y dylem efelychu esiampl cariad Duw ac y dylem hefyd gymhwyso cyngor Iesu

Sut medrwn ni ddeall a datrys y gwrthdaro ymddangosiadol hwn?

Fe garodd Duw fyd dynoliaeth, y ddynolryw yn gyffredinol, gymaint fel y rhoddodd ei Fab er mwyn i’r bobl hynny a fyddai’n arfer ffydd gael eu hachub (In 3:16; *tp* 118-20)

Un o ystyron *ko′smos* (byd) ydi’r “ddynoliaeth gyfan” (*it*-2 1205 ¶5, 1206 ¶4-7; *rs* 435)

Yn ei gariad tuag at bob bod dynol, at y ddynoliaeth amherffaith yn gyffredinol, fe anfonodd Duw ei Fab i’r ddaear

Felly fe sicrhaodd iachawdwriaeth a bywyd tragwyddol i unrhyw un a fyddai’n derbyn y bridwerth

Nid yw Duw erioed wedi caru *nodweddion annuwiol* y byd na’i *weithredoedd annuwiol* (Darllen 1 Ioan 2:15-17)

Fe ddangosodd Iesu nad ydyn ni i fod yn rhan o’r byd sy’ wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw (Darllen Ioan 15:18, 19)

Mae’r Beibl hefyd yn defnyddio *ko′smos* ynglyñ â’r ddynolryw ar wahân i weision Duw (*it*-2 1209 ¶2-5)

’Fedrai Iesu ddim fod wedi golygu yr holl ddynolryw, oherwydd ei fod e a’r apostolion y pryd hwnnw yn rhan o’r ddynolryw

Ond *sut* mae Cristnogion i beidio â bod yn rhan o’r ddynolryw sydd wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw?

Rhaid efelychu Iesu, a pheidio â pherthyn i’r byd, yn union ‘fel nad oedd yntau yn perthyn i’r byd’ (In 17:14)

Mae hi’n rhesymol ac yn briodol credu y medrwn ni beidio â pherthyn i’r byd, yn union fel nad oedd Crist yn perthyn i’r byd

’Fyddai Duw a Christ ddim yn achosi dryswch inni drwy ofyn inni wneud rhywbeth amhosib’; mi fedrai’r Cristnogion cynnar efelychu Crist, ac mi fedrwn ninnau

Yn ystod y drafodaeth hon, fe ystyriwn ni esiampl Crist yn ofalus ac yna weld beth y mae hyn yn ei olygu i ni, sut mae hyn yn effeithio arnon ni, a pha newidiadau neu welliannau y gallai fod angen i ni eu gwneud

LLWYDDWCH I BEIDIO Â BOD YN RHAN O’R BYD, FEL Y LLWYDDODD IESU (25 mun.)

Fe wyddai Iesu y byddai’n rhaid iddo wneud ymdrech i osgoi bod yn rhan o’r byd sydd wedi’i ddieithrio oddi wrth Dduw

Fe ddangosodd fod yr hyn a gyflawnodd yn fuddugoliaeth (Darllen Ioan 16:33)

Mae ei eiriau yn profi y bydd yn rhaid i ni wneud ymdrech, ond fe fedrwn ni fod yn fuddugol hefyd

Un prif reswm pam yr oedd yn rhaid i Iesu ymdrechu, a ninnau hefyd, ydi mai Satan yw rheolwr y byd (Darllen Ioan 14:30)

Mae’n amlwg mai’r ddynoliaeth wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw oedd gan Iesu dan sylw, oherwydd ’doedd Satan ddim yn rheoli Crist

Yn y nef ’roedd Satan wedi dangos mor ddiymollwng a llechwraidd y gall ei ddylanwad fod; fe lwyddodd i arwain llawer angel yn hunanol i droi yn erbyn awdurdod brenhinol Duw (Dat 12:4; *re* 179)

Fe lwyddodd Satan hefyd i ddylanwadu ar y mwyafrif o’r ddynolryw i ddilyn amcanion hunanol (Mth 7:13)

’Roedd y rheolwr byd hwn am danseilio uniondeb Iesu ac mae e’n dymuno tanseilio’n huniondeb ninnau hefyd

Fe geisiodd y diafol mewn sawl ffordd i orchfygu Iesu, ond fe fethodd

’Roedd yn golygu mwy nag angen Iesu i osgoi gweithredoedd arbennig; ’roedd yn rhaid iddo osgoi “ysbryd” y byd, y grym sy’n cymell cymdeithas ddynol ac yn dylanwadu arno (Eff 2:2; *rs* 389)

Fe ymwrthododd Iesu â’r awydd bydol am *hunanbwysigrwydd,* ac mae’n rhaid i ninnau hefyd

Fe geisiodd Satan demtio Iesu â’r posiblrwydd o fod yn bwysig yn y byd (Darllen Mathew 4:8, 9)

Oedd Satan yn gwahodd Iesu i garu’r byd yn ôl Ioan 3:16 neu yn ôl 1 Ioan 2:16?

Apêl at awydd hunanol am ogoniant ac amlygrwydd ymhlith dynion oedd hyn

Yn deyrngar, fe wrthododd Iesu ochri â Satan a’i fyd (Mth 4:10)

’Doedd ysbryd y byd sy’n ei amlygu ei hun mewn awch am hunanbwysigrwydd ddim gan Iesu

Mae gofyn i ninnau hefyd efelychu Crist drwy ymwrthod â’r awydd bydol am amlygrwydd personol

Mae ysbryd y byd yn rheolaidd yn cymell awydd am amlygrwydd mewn llawer o bobl (*w*83 6/15 19)

Yn yr ysgol, fe bentyrrir anrhydedd ar y rhai sy’n rhagori mewn chwaraeon; fe all Cristion gael ei demtio gan hyn

Mewn gwaith seciwlar, fe fyddai diddordeb mewn dod yn arolygwr, prif werthwr, neu reolwr o bosib’ yn golygu awydd am amlygrwydd personol; mae gofyn archwilio’n cymhellion

Mae rhai gwragedd yn dangos awydd am amlygrwydd drwy’r dull uchelsain sy’ ganddyn’ nhw o roi mynegiant i’w barn; mae eraill yn ceisio amlygrwydd drwy’r math o ddillad a wisgant neu eu hymdrwsio personol (*w*91 6/1 30-1)

Rhaid dadansoddi eich bywydau eich hunain; ydych chi’n gweld mannau lle’r ydych wedi ildio i’r awydd am amlygrwydd?

Fe osododd Iesu hefyd esiampl inni i’w hefelychu mewn bod yn *niwtral* tuag at bethau’r byd

’Roedd gwrthod cynnig y Diafol hefyd yn golygu i Iesu wrthod unrhyw ran ym materion gwleidyddol a militaraidd yr Iddewon

Pan fu i selotiaid gwleidyddol Iddewig geisio gan Iesu ymwneud ag ymdrechion i ennill annibyniaeth oddi wrth Rufain, ni fynnai Iesu ymuno â nhw (Darllen Ioan 6:14, 15)

Nid oedd am gael ei ddenu oddi wrth Deyrnas Dduw; ’roedd yn benderfynol o’i chefnogi hi (In 18:36)

Fe efelychodd y Cristnogion cynnar y safiad niwtral hwn (*rs* 272-4)

Ydych chi'n efelychu Crist trwy geisio cynnal niwtraliaeth o'r fath heddiw?

Fe fyddai'r rhelyw ohonom yn barod i gydnabod ein bod yn niwtral ynglŷn â chymryd rhan uniongyrchol mewn gweithgareddau gwleidyddol a militaraidd; 'rydym yn edrych ar bethau yn yr un ffordd â'n brodyr ym Malawi a gwledydd eraill

Fe fedrem ni'n hawdd ddod yn rhan o'r byd drwy ymwneud mewn ffordd fwy cyfrwys â phethau o natur gwleidyddol

Yn yr ysgol fe allai Cristion ifanc gael ei ddewis yn arweinydd dosbarth (*sj* 16)

Un amcan trefniadau o'r fath ydi hyrwyddo pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth

Wnewch chi bobl ifanc barhau i fod "nid yn rhan o'r byd," gan efelychu Crist?

Yn yr un modd fe all Cristion ddod dan bwysedd i fod yn gynrychiolydd swyddogol gweithwyr yn ei waith seciwlar

'Fyddwch chi'n niwtral yn gyson, heb fod â rhan yn y ffurf hon ar weithgarwch gwleidyddol?

Mae peidio â bod yn rhan o'r byd yn cynnwys peidio â datblygu cydymdeimlad ag unrhyw blaid wleidyddol yn y byd (*re* 197-8)

Fe all cydymdeimlad meddyliol yn hawdd arwain at weithredaeth, boed yn eiriau neu weithgareddau cefnogol

Mae gofyn hunan ddisgyblaeth gwirioneddol i ochri â'r Deyrnas, a pheidio â bod yn rhan o'r byd

Fe ddylem ni ddilyn esiampl Iesu o beidio â bod â diddordeb mewn rhyw anfoesol

Fe gydnabu Iesu fod lle addas i ryw o fewn priodas (Mth 19:5, 6)

Gan nad oedd Crist yn rhan o'r byd, 'doedd e ddim yn ymhyfrydu mewn rhyw anfoesol

Fe wnaeth ei safbwynt ar foesoldeb yn eglur yn ei Bregeth ar y Mynydd (Mth 5:27, 28, 32; *rs* 367)

'Roedd llawer o'r "pechaduriaid" a ddeuai ato yn buteiniaid, ond fe gynorthwyodd y rhai oedd yn fodlon edifarhau (Lc 5:30-32)

Fe fu i'r Cristnogion cynnar osgoi rhyw anfoesol, gan efelychu Crist (*w*82 2/1 6)

Mae Cristnogion nad ydyn nhw ddim eisiau bod yn rhan o'r byd yn efelychu esiampl Iesu yn hyn o beth (*w*87 9/15 13-14; *w*87 10/15 6)

Fe wyddom ni na ddylem ni buteinio, na godinebu na gweithredu gwrywgydiaeth

Ydym ni efallai yn tueddu i fwynhau storiau neu luniau sy'n ymwneud â rhyw anfoesol?

Oni fydd oedi uwchben lluniau a storiau o'r fath yn gwanhau ein brwdfrydedd ni dros gyfiawnder? (Eff 5:3, 4)

Os yn y dyfodol y cewch eich temtio gan bethau yn ymwneud â rhyw anfoesol, gofynnwch i chi'ch hun: 'Beth ddyliwn i ei wneud er mwyn peidio â bod yn rhan o'r byd, gan efelychu Crist?'

Fel Iesu, 'ddylem ni ddim rhoi ein bryd ar *bethau materol*

Er bod Iesu yn bwyta, yn cysgu, ac y gwisgo dillad, 'doedd e ddim yn rhoi ei fryd ar bethau o'r fath a 'doedd e ddim wedi cael ei lygru gan ysbryd y byd (Darllen Luc 12:23-31)

Er bod y Cristnogion cynnar, lawer ohonyn' nhw, yn faterol dlawd, 'doedden' nhw ddim yn gyson chwennych pethau materol (*w*69 564)

Rhaid inni ymwrthod â'r pwysedd cynyddol i ymboeni'n gyson am bethau materol

Fel Iesu, mae angen bwyd, dillad a lloches arnom ni, ond rhaid osgoi caniatáu i'r rheiny ddod yn brif destun ein sgwrs a'n meddyliau ni (Mth 8:20; 24:38, 39)

BYDDWCH YN BENDERFYNOL O YMWRTHOD AG YSBRYD Y BYD YM MHOB FFORDD (4 mun.)

Dim ond rhai agweddau yn trafod pam y mae'n rhaid i ni beidio â bod yn rhan o'r byd, gan efelychu Crist, 'rydym wedi'u hystyried

Efallai eich bod chi'n bersonol yn ymwybodol o ffyrdd eraill o roi pwysedd arnoch chi i fod yn rhan o'r byd

O bosib', trwy ddangos rhagfarn tuag at grŵp lleiafrifol o liw neu iaith arall (*w*87 9/15 19)

Efallai mai trwy efelychu fford y byd o wisgo neu geisio pleser (*w*87 9/15 14-15; *yp* 91)

Neu gyfrannu o ysbryd y byd trwy ddyrchafu arwyr chwaraeon (*g*79 11/8 18-20)

Pa ffordd bynnag y rhoir pwysedd arnoch chi i fod yn rhan o'r byd sydd wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw, ymwrthodwch (Iago 4:4)

Drwy eich ymdrechion i beidio ag arddangos ysbryd y byd, 'wnewch chi byth beryglu eich perthynas â Duw

Fe fydd hyn yn profi eich bod yn ystyried eich cyfeillgarwch â Duw yn fwy gwerthfawr nag unrhyw beth y gall y byd ei gynnig

CODWCH EICH CALON OHERWYDD I IESU ORCHFYGU—FE FEDRWN NINNAU ORCHFYGU (6 mun.)

Fe wir orchfygodd Iesu'r byd drwy osgoi ysbryd y byd (Darllen Ioan 16:33) (*it*-1 516)

'Doedd ganddo ddim rhan mewn gwleidyddiaeth; fe wrthododd fabwysiadu safonau, agweddau, ac uchelgais y byd

Fe sicrhaodd ni y medrwn ninnau wneud hynny hefyd; fe fedrwn ninnau lwyddo i beidio bod yn rhan o'r byd

Fe all y gorchfygu hwn olygu amhoblogrwydd neu erlid, fel yn hanes Iesu (In 15:18, 19)

Un rheswm am hyn ydi fod ein cwrs yn condemnio'r byd (Heb 11:7; *w*89 10/1 11, 13)

Peidiwch â gadael i amhoblogrwydd eich dychryn chi i ildio i'r byd

Glynwch wrth eich penderfyniad i orchfygu'r byd (Mth 24:13)

Er nad ydych yn rhan o'r byd, parhewch i ddangos cariad at bobl drwy eu helpu nhw i ennill iachawdwriaeth

Cerwch y byd yn yr ystyr y carodd Duw e, drwy garu a helpu bodau dynol (In 3:16; *tp* 128)

Mynnwch ran yn y gwaith pregethu i helpu eraill oroesi diddymu'r byd sydd wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw

Helpwch nhw i edrych ymlaen at amser pan fydd holl fyd dynoliaeth yn addoli Jehofah

Yna, fe fyddwn ni, orchfygwyr y byd hwn o bobl annuwiol, yn rhan o'r byd hwnnw yn yr ystyr lawnaf

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)